Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

**Gylch Meithrin Llanbedr**
**Neuadd y Pentref**
**Llanbedr**
**LL45 2LD**

**Dyddiad yr arolygiad: Gorffennaf 2018**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn.

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 12/09/2018**

## Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Cymraeg yw Cylch Meithrin Llanbedr. Mae'n cwrdd yn neuadd bentref Llanbedr, ger Harlech, yn awdurdod lleol Gwynedd. Mae'r lleoliad yn darparu addysg am bum bore'r wythnos rhwng 9.00 y bore a 11.30 y bore yn ystod tymhorau'r ysgol.

Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru i gymryd hyd at 13 plentyn ar unrhyw adeg benodol ac yn derbyn plant rhwng dwy a phedair blwydd oed. Ar hyn o bryd, mae pob plentyn tair a phedair blwydd oed yn cael eu hariannu ar gyfer addysg y blynyddoedd cynnar. Mae bron pob un o'r plant yn dod o gefndir gwyn Prydeinig ac ychydig iawn ohonynt sy'n siarad Cymraeg fel eu mamiaith. Ar hyn o bryd, nid oes un plentyn ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r lleoliad yn cyflogi tri ymarferydd cymwysedig gan gynnwys yr arweinydd. Dechreuodd yr arweinydd yn ei swydd ym mis Medi 1999. Arolygwyd y lleoliad gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ddiwethaf ym mis Mehefin 2018 a gan Estyn ym mis Mawrth 2014.

# Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

## Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd bod:

- y rhan fwyaf o'r plant yn gwneud cynnydd cyson yn eu medrau llythrennedd a rhifedd
- y rhan fwyaf o'r plant yn barod i rannu adnoddau a gweithio'n frwdfrydig gyda'u cyfoedion
- ymarferwyr yn cynllunio profiadau dysgu effeithiol i herio'r plant tuag at welliannau buddiol yn eu medrau llythrennedd a rhifedd
- addysgu bwriadus yn creu gwelliannau yn safonau'r plant
- y ddarpariaeth a'r defnydd o'r Gymraeg gan ymarferwyr yn ardderchog
- gofal diwyd a synhwyrol yr ymarferwyr yn creu awyrgylch hapus a difyr
- amgylchedd dysgu llwyddiannus yn yr adeilad yn ysgogi'r plant tuag at welliannau yn eu safonau'n ddeallus

## Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd bod:

- yr arweinydd a'r pwyllgor rheoli yn gosod cyfeiriad cadarn a chlir i waith y lleoliad
- cefnogaeth weithredol gan y pwyllgor rheoli
- gweithdrefnau hunanarfarnu rheolaidd yn arwain at osod targedau defnyddiol ar gyfer creu gwelliannau
- ymarferwyr yn awyddus i ddatblygu'n broffesiynol a mynychu hyfforddiant priodol gan asiantaethau allanol
- defnydd cydwybodol o wasanaethau cymorth fel yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin yn cefnogi'r ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth yn llwyddiannus
- partneriaethau buddiol gyda'r rhieni a gofalwyr, y gymuned a'r ysgol leol
- defnydd synhwyrol o gyllid i sicrhau gwelliannau yn y ddarpariaeth tu mewn i'r adeilad

## Argymhellion

A1 Gwella parodrwydd y plant i wrando'n fwriadus ar awgrymiadau'r ymarferwyr er mwyn cynnal ymddygiad cyson ac ymrwymiad y plant drwy gydol y sesiwn

A2 Amseru sesiynau torfol a chyflwyniadau i dasgau ffocws yn well i gynnal diddordeb y plant yn effeithiol

A3 Gwella'r ddarpariaeth i sicrhau bod plant yn datblygu eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn effeithiol

A4 Gwella'r ddarpariaeth yn yr ardal allanol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd y lleoliad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae rhan fwyaf o'r plant yn gwneud cynnydd cyson yn eu medrau o'u mannau cychwyn sy'n debyg i'r cyfartaledd disgwyliedig. Maent yn cyflawni'n dda dros amser yn eu medrau llythrennedd a rhifedd.

Mae rhan fwyaf o'r plant yn siarad yn glir ac yn sgwrsio'n hyderus gydag oedolion a phlant eraill, trwy ddefnyddio'r Saesneg ac ychydig o Gymraeg. O ganlyniad, maent yn esbonio ac egluro eu penderfyniadau a'u syniadau'n frwd yn ystod gweithgareddau. Er enghraifft, maent yn trafod yn synhwyrol ymysg ei gilydd am gynhwysion crymbl afalau gydag ymarferydd cyn ei baratoi. Mae ychydig iawn o blant yn defnyddio iaith aeddfed mewn chwarae digymell ac yn ystod tasgau ffocws. Mae hyn yn cynnwys trafod meintiau gwahanol bowlenni uwd a llwyau'r tri arth a pha wrthrychau sy'n debygol o suddo neu arnofio yn y twb dŵr.

Mae rhan fwyaf o'r plant yn dangos diddordeb mewn llyfrau ac yn mwynhau eu cynnwys. Maent yn trafod cymeriadau a digwyddiadau yn hyderus gydag oedolion a chyfoedion ac yn trin llyfrau fel darllenwyr naturiol. Mae mwyafrif o'r plant yn eistedd yn dawel ac yn dilyn storïau a drafodwyd yn synhwyrol. Maent yn rhannu storïau gyda'i gilydd ac yn ymateb â diddordeb i gynnwys y stori. O ganlyniad, maent yn ail-greu digwyddiadau yn yr ardal byd bach yn ddeallus ac yn disgrifio pa gadeiriau sy'n perthyn i wahanol gymeriadau yn yr ardal gartref yn hyderus.

Mae llawer o'r plant yn gwneud marciau'n bwrpasol. Maent yn mwynhau profiadau ysgrifennu cynnar ac yn defnyddio amrywiaeth o gyfryngau. Maent yn arbrofi gyda phaent, creonau a'u bysedd mewn ceirch i greu patrymau a llythrennau sydd yn eu henwau. O ganlyniad, mae mwyafrif o'r plant yn adnabod eu henwau eu hunain yn gywir ac mae ychydig ohonynt yn ffurfio llythrennau'r wyddor a rhifau'n annibynnol. Mae llawer o'r plant yn esbonio diben ysgrifennu yn y cyd-destunau cywir, er enghraifft wrth wneud marciau ar bapur a byrddau du i gofnodi eitemau ar fwydlen yn y gegin fwd.

Mae llawer o'r plant yn defnyddio iaith fathemategol yn effeithiol ac mewn cyd-destunau cywir. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cyfrif, yn adnabod ac yn enwi rhifau hyd at 10 yn dda. Mae lleiafrif o'r plant yn cyfrif tu hwnt i 10 yn hyderus ac mae ychydig ohonynt yn rhifo o 10 lawr i sero yn fedrus. Gwneir hyn wrth drefnu tractorau yn y pridd yn yr ardal allanol, rhifo tentaclau'r octopws, gosod botymau mewn toes a defnyddio abacws a rhifau ar linyn.

Mae rhan fwyaf o'r plant yn dewis offer a deunyddiau perthnasol i ddatrys problemau mathemategol yn effeithiol. Maent yn llenwi ac yn gwacáu powlenni, bwcedi a jygiau'n ofalus gyda phridd, tywod, ceirch neu ddŵr a nodi'n gywir pan fyddant yn llawn neu'n wag. Maent yn trefnu eu hunain mewn rhes yn hyderus cyn mynd i'r cae bach cyfagos a rhifo'u lle yn y llinell yn ddeallus. Yn ogystal, maent yn grwpio mathau gwahanol o wrthrychau yn ôl maint, siâp a lliw yn gywir, yn enwedig wrth adeiladu tyrrau yn yr ardal adeiladu a chodi dail â gefeiliau. Mae llawer o'r plant yn cymharu siapiau dau ddimensiwn a thri dimensiwn yn gywir ac maent yn gallu esbonio bod cylch yn fflat ar bapur ond yn grwn wrth ddisgrifio pêl.

Nid yw'r plant yn defnyddio cyfarpar TGCh yn ddigon pwrpasol. O ganlyniad, mae eu defnydd o feddalwedd addysgol ac apiau yn y Gymraeg i ddatblygu eu medrau TGCh a'u medrau meddwl yn addas ar hyn o bryd.

Mae llawer o'r plant yn datblygu medrau meddwl a chreadigol da trwy weithgareddau difyr. Caiff y gweithgareddau hyn effaith gadarnhaol ar eu dysgu a'r safonau y maent yn eu cyflawni. Er enghraifft, maent yn gosod hadau gwair a phridd mewn hosan i greu 'Mistar Pen Gwair' ac yn defnyddio siswrn i dorri ei 'wallt' wrth i'r gwair dyfu.

Mae bron pob un o'r plant yn hoffi gwrando ar gerddoriaeth ac maent yn ymateb yn frwdfrydig i hwiangerddi a chaneuon cyfarwydd yn y Gymraeg ac maent yn canu'n hwylus wrth y piano. Mae rhan fwyaf o'r plant yn defnyddio'u medrau corfforol yn effeithiol, er enghraifft wrth iddynt rasio ei gilydd yn y cae, cicio a thaflu peli a rholio teiars o un man i'r llall.

**Lles: Digonol**

Mae bron pob un o'r plant yn awyddus i blesio a chynnal trafodaethau brwdfrydig gyda'r ymarferwyr wrth iddynt gyrraedd y lleoliad ac yn ystod eu hamser yno. Ar y cyfan, maent yn ymddwyn yn briodol ac yn parchu barnau eraill. Mae'r mwyafrif ohonynt yn gwrando'n ofalus ar ymarferwyr. Fodd bynnag, mae lleiafrif o'r plant yn ymateb yn araf i awgrymiadau'r ymarferwyr. O ganlyniad, maent yn anwybyddu ceisiadau'r ymarferwyr i gydymffurfio yn ystod amser tacluso neu ar ddechrau gweithgaredd newydd yn eithaf aml.

Mae rhan fwyaf o'r plant yn barod i rannu adnoddau a gweithio'n frwdfrydig gyda phlant eraill. Maent yn dangos agweddau cadarnhaol at brofiadau newydd, fel rhifo brigau cyn eu gosod yn y dŵr a phlannu blodau mewn esgidiau glaw. Mae mwyafrif o'r plant yn dangos cymhelliant wrth ymateb i heriau ac maent yn dangos diddordeb yn eu dysgu. O ganlyniad, mae'r mwyafrif ohonynt yn canolbwyntio'n gydwybodol yn ystod y gweithgareddau. Fodd bynnag, nid oes digon o barodrwydd gan lleiafrif o'r plant i weithio a chanolbwyntio'n bwrpasol ar dasgau'n brydlon.

Mae mwyafrif o'r plant yn dechrau gwneud dewisiadau synhwyrol yn ystod chwarae rhydd. Maent yn mynegi barn a gwneud dewisiadau personol yn effeithiol, er enghraifft wrth iddynt benderfynu symud o'r adeilad i'r ardal allanol i brofi gweithgareddau newydd. Fodd bynnag, mae lleiafrif ohonynt yn dibynnu'n ormodol ar gyfarwyddiadau'r ymarferwyr i ymroi'n llwyr i dasgau, fel tasgau llythrennedd ar draws y meysydd dysgu.

Mae ymwybyddiaeth bron pob un o'r plant o hylendid yn gadarn. Maent yn deall bod cadw'n iach yn bwysig a bod angen osgoi heintiau trwy arferion glân ar ôl defnyddio'r toiled, chwarae anniben a gweithgareddau yn yr awyr agored. O ganlyniad, mae bron pob un o'r plant yn golchi eu dwylo'n drylwyr heb lawer o anogaeth gan oedolyn.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r arweinydd a'r ymarferwyr yn cydweithio'n dda i ddarparu gweithgareddau diddorol ar draws yr holl feysydd dysgu. Mae eu hymroddiad yn ennyn diddordeb y

plant yn effeithiol ar y cyfan. O ganlyniad, mae'r plant yn datblygu'n ddysgwyr deallus ac mae eu cynnydd yn gadarn ynglŷn â'u medrau llythrennedd a rhifedd. Er enghraifft, maent yn cymell y plant i ddysgu'n ymarferol trwy chwarae rôl yn y gegin fwd ac i ymholi ac ymchwilio yng ngwesty'r trychfilod.

Mae'r ymarferwyr yn darparu cwricwlwm difyr, sy'n adlewyrchu ethos y cyfnod sylfaen yn bwrpasol. Mae eu cynllunio ar gyfer darparu profiadau dysgu synhwyrol yn effeithlon ac yn bodloni anghenion a diddordebau'r plant yn dda. Mae'r cynllunio'n canolbwyntio ar ddarparu profiadau diddorol ac, yn ddiweddar, yn seiliedig ar ganfyddiadau'r asesu. O ganlyniad, mae'r ymarferwyr yn herio unigolion yn effeithiol yn erbyn y camau nesaf yn eu dysgu.

Mae'r holl ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i'r plant leisio eu syniadau personol i gyfrannu at weithgareddau ymhellach. Mae hyn yn cynnwys dewis llyfrau'n annibynnol i drafod yn y gornel ddarllen, dewis rhigymau i ganu a mynegi eu barnau personol ar gynhwysion i wneud crymbl ag afalau a ffrwythau. Mae'r gweithgareddau hyn yn ychwanegu'n gadarnhaol tuag at frwdfrydedd dyddiol y plant wrth iddynt ddysgu trwy chwarae a gweithgareddau addysgol.

Mae'r ddarpariaeth o ran yr iaith Gymraeg yn fuddiol i'r plant. Mae'r ymarferwyr yn fodelau rhagorol o'r iaith. Maent yn cynorthwyo'r plant sy'n dechrau dysgu'r iaith yn ardderchog. Mae'r ymarferwyr yn annog plant i ddefnyddio'r iaith cymaint ag y bo modd trwy'r gweithgareddau dyddiol ac atgyfnerthu eu datblygiad yn llwyddiannus dros ben. Maent yn holi'r plant yn bwrpasol iawn yn yr ardaloedd dysgu dan do ac yn yr awyr agored. O ganlyniad, mae dealltwriaeth rhan fwyaf o'r plant o'r iaith yn datblygu'n gadarnhaol ac maent yn ymateb â geirfa ac ymadroddion cyfarwydd mewn amser byr.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a medrau meddwl y plant yn effeithiol. Mae'r gweithgareddau, sy'n cynnwys heriau iaith a mathemateg, yn amlwg ym mhob maes dysgu ac yn ysgogi'r plant i berfformio ar eu gorau'n gyson. Gwelir enghreifftiau ymarferol o hyn wrth i blant drafod nodweddion y tywydd, arian wrth fynd i'r siop ac anifeiliaid y fferm. O ganlyniad, mae gwybodaeth a dealltwriaeth bron pob un o'r plant o fywyd pob dydd yn datblygu'n gadarn.

Mae'r lleoliad yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o draddodiadau, dathliadau a diwylliant Cymru'n llwyddiannus. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys dathlu Dydd Gŵyl Dewi a Diwrnod Santes Dwynwen, teithio ar drên a bws i weld yr arfordir ac ymweld â chastell Harlech.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau TGCh yn briodol ac yn cynnig cyfleoedd addas i'r plant ddefnyddio cyfarpar electronig. Fodd bynnag, nid yw'r ymarferwyr yn cynllunio'n fwriadus er mwyn datblygu medrau'r plant yn ddigon effeithiol a chyson ar draws yr ardaloedd dysgu.

Mae'r ymarferwyr yn canolbwyntio ar ddatblygu medrau corfforol y plant yn dda ac yn gwneud y defnydd gorau y gallant o'r ardaloedd allanol sydd ar gael. Maent yn darparu cyfleoedd priodol i blant rhedeg yn fywiog, rholio teiars a chicio a thaflu peli i'w gilydd i wella'u medrau a'u datblygiad corfforol. Yn ogystal, mae'r ymarferwyr yn cynllunio gweithgareddau gwerthfawr i ddatblygu medrau creadigol y plant. Maent yn darparu cyfleoedd da trwy ddefnyddio sialc i wneud marciau a rhifau ar fyrddau du a pheintio wrth îsl i arbrofi â lliwiau gwahanol wrth gymysgu nhw ar bapur.

Mae’r lleoliad yn gwneud defnydd buddiol o ymweliadau ac ymwelwyr i gyfoethogi profiadau dysgu’r plant.  Er enghraifft, maent yn crwydro’r lonydd cyfagos i arsylwi ar yr ieir a’r ceffylau, cerdded i’r siopau lleol a chwarae yn y parc.  Mae hyn yn atgyfnerthu’r cwricwlwm yn effeithiol.  Mae ymwelwyr fel y gwasanaethau brys a’r dyn llaeth yn addysgu’r plant yn llwyddiannus am rolau pobl yn eu cymuned.

**Addysgu:  Da**

Mae gan yr holl ymarferwyr wybodaeth gyfoes am ddatblygiad plant ac maent yn wybodus ynglŷn â gofynion y cyfnod sylfaen.  Maent yn rheoli ymddygiad plant yn briodol ac yn annog cyfranogiad a mwynhad y plant yn llwyddiannus yn eu gweithgareddau.  Maent yn ymyrryd yn synhwyrol ym mhrofiadau a chwarae’r plant er mwyn eu hysgogi a’u cymell i lwyddo.  Maent yn deall pwysigrwydd darparu cyfleoedd eang i ddysgu trwy chwarae.  Enghraifft effeithiol o hyn yw rhofio tywod i lenwi bwcedi i greu cestyll tywod a gosod y bwrdd yn daclus gyda llestri a chytleri yng nghegin y tri arth.

Mae gan yr ymarferwyr ddisgwyliadau da o’u hunain a’r plant ac maent yn eu herio’n gyson mewn tasgau ffocws.  Maent yn holi’r plant yn fedrus ac yn rheolaidd gyda Chymraeg ragorol, sy’n effeithio’n gadarn ar fedrau llythrennedd, rhifedd a meddwl y plant.  Mae hyn yn amlwg wrth iddynt drin a thrafod helyntion Elen Benfelen yn nhŷ’r eirth a’i theimladau hi wrth fwyta’r uwd a chysgu yn eu gwelyau.  Fodd bynnag, mae cyflwyniadau torfol yr ymarferwyr yn colli cyflymder ar adegau ac yn rhedeg yn hir.  O ganlyniad, mae’r lefelau sŵn yn codi’n annerbyniol o uchel, sy’n gwrthdynnu sylw’r plant o amcan y sesiwn ac yn amharu ar eu hymroddiad i’r dasg.  Mae hyn yn achosi i leiafrif o’r plant golli diddordeb yn y trafodaethau a bwriad y sesiynau.

Mae’r ymarferwyr yn annog y plant i gymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol yn effeithiol.  Maent yn sicrhau cyfleoedd rheolaidd i’r plant symud yn rhydd rhwng yr ardaloedd mewnol a thu allan.  Mae hyn yn herio’r plant i wneud dewisiadau doeth ynglŷn â’u dysgu.  Mae’r ymarferwyr yn holi’r plant yn bwrpasol i ddatblygu eu medrau meddwl a chyfathrebu.  Gwneir hyn yn fedrus wrth greu wynebau allan o does i adlewyrchu teimladau a faint o ddŵr sydd ei angen i greu uwd dyfrllyd neu drwchus.

Mae’r gweithdrefnau ar gyfer asesu a chofnodi cyflawniadau plant yn gadarn.  Mae’r dystiolaeth yn cyfatebu’n gywir â deilliannau plant unigol gan ddefnyddio gweithdrefnau’r awdurdod lleol a phroffil y cyfnod sylfaen.  Mae’r ymarferwyr yn cofnodi’r asesiadau’n rheolaidd ac yn trafod yn synhwyrol gyda’r plant beth sydd angen iddynt ei wneud i wella’u gwaith.  Maent yn defnyddio asesiadau dyddiol i nodi’r camau nesaf yn nysgu plant unigol yn dda ac yn defnyddio’r wybodaeth hon wrth gynllunio’r camau nesaf yn y dysgu yn effeithiol.

Mae’r lleoliad yn hysbysu rhieni a gofalwyr yn gyson am gyflawniadau eu plant.  Mae’r ddeialog ddyddiol rhwng yr ymarferwyr a’r rhieni a gofalwyr yn atgyfnerthu hyn yn gadarn.  Ar ddiwedd eu hamser yn y lleoliad, mae gwybodaeth am gyflawniad y plant ar gael i’r rieni drwy lyfrynnau defnyddiol sy’n olrhain eu cynnydd yn dda.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r lleoliad yn cynnig cyfleoedd da i hybu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant. Mae'r ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd synhwyrol i annog y plant i gyfarch ei gilydd, i fyfyrio am deimladau eraill, gweddïo a dweud diolch.

Mae'r ymarferwyr yn meithrin gwerthoedd fel tegwch a pharch yn effeithiol ymysg y plant. Mae hyn yn atgyfnerthu'r defnydd o'r gwerthoedd hyn ym mywyd dyddiol y lleoliad. Enghraifft effeithiol yw'r system 'helpwr y dydd', sy'n pennu dyletswyddau i unigolion ac yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i bob plentyn feithrin cyfrifoldeb yn eu tro. O ganlyniad, mae'r plant yn gwrtais wrth fwyta byrbrydau a gweini llaeth a dŵr o amgylch y bwrdd bwyta.

Mae gan y lleoliad drefniadau cadarn i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae'r plant yn deall bod ffrwythau a llysiau'n rhan o ddiet synhwyrol. Mae trefniadau llwyddiannus yn bodoli i gefnogi iechyd a lles y plant. Mae'n cefnogi dysgu'r plant yn synhwyrol, fel hyrwyddo gweithgareddau i gyflymu'r galon yn yr ardal allanol. O ganlyniad, mae'r trefniadau hyn yn cyfrannu'n dda at ddatblygiad a lles cyffredinol y plant.

Mae'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd rheolaidd i blant ailgylchu papur, cardfwrdd a nwyddau plastig. Maent yn defnyddio wyneb ar y blwch ailgylchu bwyd yn ddeallus i atgoffa'r plant yn ddyddiol i ailgylchu unrhyw fwyd sydd heb fwyta. Mae'r gweithgaredd hwn a'i debyg yn datblygu dealltwriaeth y plant o gynaliadwyedd yn bwrpasol.

Mae'r lleoliad yn amgylchedd diogel ac mae'r ymarferwyr yn cymryd gofal da o blant pan fyddant yn cyrraedd a phan fyddant yn cael eu casglu. Mae'r plant yn hapus ac yn ddiogel yng nghwmni oedolion ac maent yn aml yn gofyn am gymorth a chefnogaeth heb bryder. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio strategaethau ymddygiad cadarnhaol, sydd ar y cyfan yn dileu unrhyw aflonyddwch neu ymddygiad afreolus yn briodol. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r lleoliad yn cofnodi anghenion dysgu plant yn effeithiol pan fyddant yn ymuno â'r lleoliad, ac yn ystod eu cyfnod yno. Mae'r ymarferwyr yn adolygu cynnydd y plant yn rheolaidd. Maent yn nodi eu mannau cychwyn yn effeithiol trwy ddilyn canllawiau proffil y cyfnod sylfaen. O ganlyniad, mae'r lleoliad yn targedu plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol pan fydd angen.

## Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae'r ymarferwyr yn hyrwyddo ethos cadarnhaol drwy eu gweithgareddau dyddiol a'u cymhelliant cyson. Mae'r ymarferwyr yn herio a chefnogi'r plant yn gydwybodol. Maent yn pwysleisio'n ddyddiol fod angen parchu ei gilydd a bod dewisiadau unigolion yn rhan bwysig o'u datblygiad personol.

Mae'r ymarferwyr yn addysgu'r plant am wahanol wyliau a diwylliannau'r byd yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae'r lleoliad yn dathlu'r Flwyddyn Newydd Dsieineaidd yn flynyddol ac yn darparu cyfleoedd i blant flasu bwydydd o wledydd estron.

Mae’r ymarferwyr yn bodloni anghenion y plant yn synhwyrol a chaiff yr holl blant gyfle cyfartal i ddysgu yn yr ardaloedd gwahanol. O ganlyniad, mae’r lleoliad yn gymuned gwbl gynhwysol, sy’n cydnabod unigolrwydd y plant yn bwrpasol.

Mae’r lleoliad yn defnyddio adnoddau’n effeithiol i fodloni gofynion y cyfnod sylfaen ac anghenion plant. Caiff ystod eang yr adnoddau diddorol eu defnyddio’n effeithiol mewn gweithgareddau parhaus i gyfoethogi’r dysgu a thasgau ffocws. Mae’r adnoddau’n hygyrch i bawb, ac yn hyrwyddo synnwyr y plant i gymryd cyfrifoldeb yn effeithiol, fel o gwmpas y gegin fwd a’r ardal adeiladu.

Mae'r amgylchedd dysgu dan do yn lân ac mae’r ystafell mewn cyflwr da ac wedi'i chynnal yn gydwybodol. Mae’r ymarferwyr yn trefnu'r ardaloedd dysgu’n synhwyrol i greu amgylchedd dysgu dan do sy’n lliwgar, difyr a diddorol. Maent yn annog y plant i symud o un ardal ddysgu i’r llall tu mewn a thu allan i’r adeilad heb lawer o anogaeth, sy’n cyfrannu’n llwyddiannus at ddarparu amrywiaeth o brofiadau ymarferol iddynt.

Nid yw’r ymarferwyr yn cael defnyddio’r neuadd a rhan o’r ardal allanol ar hyn o bryd. Serch hyn, maent yn gwneud defnydd priodol o ardal allanol gyfyng. Yn ogystal, maent yn defnyddio’r cae bach wrth ymyl y neuadd yn ddoeth i ddatblygu medrau corfforol ac ymchwiliol y plant. Fodd bynnag, nid yw’r defnydd presennol o’r ardal allanol yn sicrhau digon o gyfleoedd i’r plant ddatblygu eu holl medrau yn ddigon cyson yn yr awyr agored.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae’r arweinydd yn arwain y lleoliad yn dda, a gyda chefnogaeth gadarn yr ymarferwyr, maent yn hyrwyddo a chynnal gwelliannau’n effeithiol. O ganlyniad, maent yn sicrhau bod y profiadau dysgu, yr addysgu a’r gofal yn effeithio’n llwyddiannus ar safonau’r plant. Mae gweithdrefnau’r lleoliad, sy’n cynnwys polisïau trefnus a chorfforaethol, yn canolbwyntio’n drwyadl ar wella’r ddarpariaeth. Mae hyn yn bodloni anghenion y plant yn ddeallus ac yn hyrwyddo eu cyflawniadau’n bwrpasol.

Mae’r arweinydd yn cydweithio’n ddiwyd gyda’r ymarferwyr eraill ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o ran eu hunain a’r plant. O ganlyniad, maent yn cymell ac yn herio’r plant i wella mewn ffyrdd cefnogol trwy addysgu effeithiol. Gwelir hyn wrth iddynt fwydo’r Gymraeg yn rhagorol i’r plant trwy sgwrsio a chanu’n gyson gydag unigolion a grwpiau penodol i dargedu gwelliannau ar lafar.

Mae’r arweinydd a’r ymarferwyr yn defnyddio gwybodaeth berthnasol a chyfredol am y lleoliad i wella’r ddarpariaeth. Yn ddiweddar, mae hyn yn cynnwys defnyddio proffil y cyfnod sylfaen yn effeithiol a mireinio’r gweithdrefnau cynllunio. O ganlyniad, maent yn adnabod mannau cychwyn y plant yn gywir ac yn plethu’r asesiadau i’r cynllunio i herio’r plant tuag at welliannau yn eu gwaith. Yn ogystal, maent yn canolbwyntio’n drylwyr ar flaenoriaethau cenedlaethol, fel datblygu strategaethau llythrennedd a rhifedd, i wella medrau’r plant cyn iddynt ddechrau’r ysgol.

Mae’r pwyllgor rheoli cefnogol yn sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer y plant yn effeithiol. Maent yn sicrhau bod ymarferwyr yn deall eu rolau’n llawn trwy werthusiadau a thrafodaethau cyson ac maent yn gweithio’n ddiwyd fel tîm. Maent yn canolbwyntio’n bwrpasol ar wella’r ddarpariaeth ac yn cynnal digwyddiadau i godi arian er mwyn sicrhau bod y lleoliad yn gynaliadwy yn ariannol. Mae’r pwyllgor rheoli’n derbyn gwybodaeth am arferion y lleoliad yn rheolaidd gan yr arweinydd a’r ymarferwyr. Maent yn cyfarfod yn gyson i drafod yr incwm a chyllid y lleoliad ac maent yn monitro’r gwariant a’r defnydd o grantiau yn fanwl a chydwybodol. O ganlyniad, mae’r pwyllgor rheoli’n cefnogi’r lleoliad yn dda ac yn canolbwyntio ar gynnal a gwella’i arferion ymhellach.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae’r arweinydd a’r ymarferwyr wedi sefydlu trefniadau cyson i fonitro safonau’r plant a’r ddarpariaeth. Maent yn cydweithio’n gydwybodol ac mae eu trafodaethau dyddiol yn cyfrannu at welliannau’n llwyddiannus. Mae eu gweithdrefnau i wella ansawdd y lleoliad yn rhoi ystyriaeth lawn i farn ymarferwyr, y plant, rhieni a gofalwyr, yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin. Mae’r wybodaeth sy’n deillio o’r gweithdrefnau hyn yn rhoi darlun cyflawn a chywir o waith y lleoliad. O ganlyniad, mae diwylliant cadarnhaol o hunanarfarnu yn treiddio trwy waith y lleoliad.

Mae’r adroddiad hunanarfarnu yn adlewyrchu effaith y gweithdrefnau cadarn ac yn nodi cryfderau’r lleoliad a’r meysydd i’w datblygu yn bwrpasol. Mae’r arweinydd a’r ymarferwyr yn cymryd camau pwrpasol i gynnal arferion rheolaidd a rhoi newidiadau ar waith drwy gynlluniau datblygu effeithiol. O ganlyniad, maent yn agored i syniadau newydd ac yn barod i arbrofi â gwahanol strategaethau i lwyddo.

Mae’r pwyllgor rheoli’n blaenoriaethu gwariant yn unol â’r camau a nodwyd ar gyfer gwella. Maent felly’n gwella’r ddarpariaeth trwy fabwysiadu gwahanol strategaethau a derbyn cyngor gwerthfawr gan eraill. Er enghraifft, maent wedi ymateb i awgrymiadau athrawes gefnogi’r awdurdod lleol yn brydlon a phwrpasol trwy adnewyddu’r cynllunio, sefydlu mannau cychwyn cadarn i’r plant a monitro’u cynnydd yn effeithiol trwy arsylwadau synhwyrol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae’r lleoliad yn gweithio’n effeithiol gyda phartneriaid i wella safonau’r plant, eu profiadau dysgu a’u gofal. Mae cydweithio da yn bodoli gydag asiantaethau allanol fel yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin. Mae’r berthynas gadarnhaol hon yn atgyfnerthu gwaith y lleoliad ac yn cefnogi’n weithredol gyda hyfforddiant a dogfennaeth reolaethol ddefnyddiol.

Mae’r ymarferwyr yn cymryd camau gweithredol i gynnwys rhieni a gofalwyr ym mywyd y lleoliad. Mae’r lleoliad yn hysbysu rhieni a gofalwyr yn rheolaidd am bob agwedd ar waith y lleoliad, sy’n cynnwys defnydd da o gyfryngau cymdeithasol. Maent hefyd yn eu hannog i gynnig eu barn eu hunain ar faterion i wella'r lleoliad trwy holiaduron a thrafodaethau cyson.

Mae’r lleoliad yn defnyddio ei gysylltiadau cadarn â’r ysgol i gefnogi dysgu’r plant. Mae hyn yn cynnwys defnyddio cae bach yr ysgol am weithgareddau awyr agored a chydweithio wrth drosglwyddo gwybodaeth ynglŷn â’r plant cyn iddynt parhau â’u haddysg yn yr ysgol. Mae hyn wedi ei sefydlu’n gadarn.

Mae'r ymarferwyr yn gweithio a chysylltu ag ystod eang o bartneriaid eraill, sy'n gwneud cyfraniad pwysig i wella'r ddarpariaeth. Mae'r rhain yn cynnwys asiantaethau sy'n cefnogi'r lleoliad gyda hyfforddiant fel cymorth cyntaf, cyrsiau hylendid bwyd a hyfforddiant diogelu plant.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r arweinydd a'r pwyllgor rheoli'n anelu'n gyson tuag at wella pob agwedd ar waith y lleoliad, trwy reoli staff ac adnoddau'n dda. Maent yn sicrhau bod gan y lleoliad ddigon o ymarferwyr cymwys trwy sicrhau hyfforddiant pwrpasol iddynt. O ganlyniad, maent yn dîm o ymarferwyr sefydlog a chydwybodol.

Mae'r arweinydd yn annog yr ymarferwyr i ddatblygu a rhannu eu gwybodaeth broffesiynol yn synhwyrol. O ganlyniad, mae'r lleoliad yn enghraifft dda o gymuned ddysgu effeithiol.

Mae'r gweithdrefnau rheoli perfformiad yn briodol ac yn arwain at brofiadau dysgu diddorol ac arferion addysgu cadarnhaol. Mae'r lleoliad yn rheoli adnoddau'n synhwyrol i gefnogi'r dysgu yn yr adeilad. Er bod yr ardal allanol yn gyfyng ac nid oes cyfle rheolaidd i ddefnyddio'r neuadd, mae'r ymarferwyr yn gwneud eu gorau i gynnig profiadau addas yn yr awyr agored a gweithgareddau corfforol i'r plant.

Mae gan y pwyllgor rheoli ddealltwriaeth glir o'r gyllideb a phwysigrwydd codi arian i gynnal a gwella'r adnoddau. Maent yn blaenoriaethu gwariant yn ofalus gan nodi cyfrifoldebau a llinynnau amser synhwyrol. Maent yn creu gwelliannau cyson trwy drafod ac ariannu cynlluniau i wella'n bwrpasol. O ganlyniad, mae'r lleoliad yn sicrhau bod y defnydd a wneir o gyllid yn cael effaith uniongyrchol ar y ddarpariaeth a safonau'r plant.

Er bod angen gwella agweddau ar les y plant, mae'r lleoliad yn cynnig gwerth da am arian oherwydd safonau da'r plant, y ddarpariaeth bwrpasol a'r arweinyddiaeth effeithiol.

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGC** | Mae Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012 |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg |